# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 29 Gorffennaf 2026

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd D Clements, Y Cynghorydd C George, Mr J Hogg, Mr GA Jones, y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd M Williams.

**Yn bresennol (o bell)**
Ms H Gwenllian, y Cynghorydd SL Hancock MBE, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd B Price, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

[Ymunodd Mrs S Hoss a'r Cynghorydd H Murphy yn ystod ystyried yr adroddiad ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 – Gwersylla (gweler cofnod 8)]

**Hefyd yn bresennol:**
Lynwen Davies (Cyfieithydd ar y Pryd), Steffan Davies (Swyddog Cynllunio), Charles Felgate (Cyfreithiwr) (yn bresennol ar gyfer cofnodion 1-8), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Mike Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu) a James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth).

[Ystafell y Preseli, Parc Llanion, Doc Penfro ac Ar-lein, 10.00am – 11.40am]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Miss F Day, Y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd A Tinley.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd y Cynghorydd B Price fuddiant yn adroddiad 23/26, sef Goblygiadau’r Newidiadau i’r Hawliau Datblygu a Ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwersylla o ran Cyfarwyddyd Erthygl 4 y Parc Cenedlaethol.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a chyfarfod Cyffredin yr Awdurdod Parc Cenedlaethol) a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026.

O ran y Cyfarfod Cyffredin, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith, o dan Cyhoeddiadau'r Cadeirydd, bod llythyren gyntaf anghywir wedi'i chofnodi ar gyfer enw Dirprwy Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a dylai hwn ddarllen 'S Hunt'. Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd am gynnwys y gair 'anstatudol' o dan eitem 7, i ddisgrifio safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth byd natur. Yn amodol ar y diwygiadau uchod ac ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd V Thomas, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Cyffredin yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nodwyd y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd, Dr M Havard, ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau neu'r cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Agoriad swyddogol arddangosfa Helen Chadwick yn Oriel y Parc, oedd yn fenter ar y cyd rhwng Ystafelloedd Artistiaid y Tate ac Amgueddfa Cymru.
- Cynhadledd Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Parciau Cenedlaethol y DU a gynhaliwyd gan Barc Cenedlaethol South Downs. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith bod Cyllid Gwyrdd wedi bod yn ffocws i'r gynhadledd, a chadarnhaodd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i gyfarfod nesaf y Grŵp Amrywio Incwm am drafodaeth bellach.
- Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Llandeilo a fynychwyd gan nifer o Aelodau'r Awdurdod.
- Sioe Frenhinol Cymru ynghyd â Phrif Weithredwr yr Awdurdod lle bu'r ddau yn cyfarfod â nifer o'r rhanddeiliaid, ac yn cyflwyno'r wobr i enillydd Cystadleuaeth Trinwyr Ifanc Cŵn Defaid, gan mai Parciau Cenedlaethol Cymru oedd Noddwyr y wobr hon.
- Cyfarfod o'r Fforwm Partneriaeth oedd yn canolbwyntio ar gadwraeth.
- Cyfarfod Dyfarnu Grantiau Ffermio Bro lle dewiswyd 21 o amrywiol ffermydd i gael cymorth ariannol.
- Cyfarfod o Gyngor yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol oedd yn canolbwyntio ar Gymru a'r Parc Cenedlaethol arfaethedig.
- Cyfarfod o Gadeiryddion Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru lle trafodwyd y dulliau a fabwysiedir gan Lywodraeth newydd Cymru.

- Y cyfarfod cyntaf gyda Phrif Weithredwr yr Awdurdod a thri Aelod oedd newydd eu hethol i’r Senedd, a'r gobaith o gyfarfod ag Aelodau eraill cyn hir.
- Cyfarfod o’r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol oedd yn canolbwyntio ar sawl adroddiad prosiect a'r cyfrifon a archwiliwyd.
- Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod wedi mynychu dau gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol. Y Pwyllgor Llesiant Economaidd a Datblygu Economaidd Rhanbarthol lle trafodwyd y gronfa partneriaethau arloesi lleol, y gronfa twf lleol, a'r diweddariad ar ynni rhanbarthol. Y Cyfarfod Cynllunio Strategol lle rhoddwyd diweddariad ar y cynllun datblygu strategol.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Llantwd yng Ngogledd Sir Benfro ar 1 – 8 Awst 2026. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd stondin gan yr Awdurdod mewn gofod ar y cyd â Chyngor Sir Penfro yn 'Pentref y Garreg Las' lle trefnir rhaglen lawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Hefyd cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd gan yr Awdurdod gynrychiolaeth yn Sioe Sir Benfro, Hwlffordd, yn Sioe Abergwaun, ac yn Sioe Nanhyfer.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Helen Lloyd a’i llongyfarch ar fod ar fin ymddeol o'r Awdurdod ar ôl 22 mlynedd o wasanaeth.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 03/06/2026 ac ar 24/06/2026 i'r Aelodau eu hystyried.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor uchod.

**7. Seddi Gwag ar Bwyllgorau**

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd sylw at y ffaith bod sedd wag ar y Pwyllgor Adolygu Gweithredol ac ar y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd H Murphy ar y Pwyllgor Adolygu Gweithredol ac ar y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

**8. Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Gwersylla**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn amlinellu goblygiadau’r Newidiadau i’r Hawliau Datblygu a Ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwersylla o ran Cyfarwyddyd Erthygl 4 y Parc

Cenedlaethol. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi diwygio’r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla hamdden dros dro drwy’r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2026, a'r darpariaethau newydd i ddod i grym o’r 1af o Fehefin 2026. Eglurodd y Swyddog bod Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) presennol yr Awdurdod yn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwersylla, carafanau a chartrefi symudol am 28 diwrnod, ac oni bai bod yr Awdurdod yn ailgyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer gwersylla o dan y ddeddfwriaeth ddiwygiedig, byddai'r elfen honno yn peidio â bod mewn grym ar y 1af o Fedi 2026. Ychwanegwyd y byddai'r elfennau carafanau a chartrefi symudol yn parhau mewn grym gan nad oedd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi newid.

Cadarnhaodd yr adroddiad bod yr hawliau diwygiedig yn cadw'r terfyn o 28 diwrnod o fewn y Parciau Cenedlaethol, y Tirweddau Cenedlaethol a’r Safleoedd Treftadaeth y Byd, ond yn caniatáu hyd at 60 diwrnod mewn llefydd eraill. Yn ogystal, dywedwyd bod y ddeddfwriaeth newydd wedi cyflwyno proses o hysbysu ymlaen llaw o’r 1af o Fedi 2026 oedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn gweithredu bob blwyddyn.

Eglurodd y Swyddog bod y drefn ddiwygiedig yn mynd i'r afael â rhai o'r risgiau oedd wedi arwain at Gyfarwyddyd Erthygl 4 yr Awdurdod ond nid pob effaith bosibl ar y dirwedd, bioamrywiaeth, lleoliad treftadaeth ac ar y gymuned. Felly awgrymwyd na ddylai'r Awdurdod ailgyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer gwersylla ar hyn o bryd ond yn hytrach monitro’r modd y gweithredir yr hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir, ac effeithiau hynny, am flwyddyn cyn penderfynu a ellid cyfiawnhau cymryd camau pellach.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth gefndir, manylion yr ymgynghori, cyd-destun y polisi strategol, ac ystyriaethau ariannol.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog nad oedd y safleoedd ardystiedig wedi'u heffeithio gan y newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd, pe bai'r Aelodau yn bwriadu ailgyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) arall yn sgîl y newidiadau i'r ddeddfwriaeth, a fyddai'n ofynnol i'r Awdurdod ail-ymgynghori â’r rhanddeiliaid. Cadarnhaodd y Swyddog a'r Cyfreithiwr y gallai'r Awdurdod gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) pe bai ymgynghoriad helaeth eisoes wedi digwydd, ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai hyn yn cael ei argymell ac felly roedd yn debygol y byddai angen i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad arall pe bai'n ailgyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) arall.

Holodd Aelod beth fyddai’r ffordd orau i’r Awdurdod gyfleu'r newidiadau hyn i'r rhai yr effeithir arnynt er mwyn lleihau nifer yr achosion gorfodi yn y dyfodol a achosir gan ddiffyg ymwybyddiaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau perthnasol eto i gyd-fynd â'r newidiadau. Fodd bynnag, roedd Swyddogion yr Awdurdod yn bwriadu cynnal gwaith arolygu dros yr Haf a chasglu tystiolaeth o unrhyw effeithiau ar y dirwedd, bioamrywiaeth, priffyrdd, ansawdd y dŵr, y cymunedau lleol, ystyriaethau'r Gymraeg, a dyletswyddau ehangach y sector cyhoeddus. Yn ogystal, bwriad y tîm oedd cysylltu â’r rhanddeiliaid perthnasol dros yr Haf i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau a chynnig cyngor lle bo angen.

Gofynnodd Aelod am grynodeb o'r hyn y gallai gweithredwyr meysydd gwersylla ei ddisgwyl y tymor nesaf, yn dilyn y newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Eglurodd y Swyddog yn gryno y byddai'n ofynnol i weithredwyr meysydd gwersylla lenwi ffurflen hysbysu ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru, fyddai wedyn yn cael ei throsglwyddo i wefan y Parc Cenedlaethol. Eglurodd y Swyddog y byddai gweithredwyr meysydd gwersylla yn cael eu hannog i gwblhau'r cam hwn ymhell cyn dechrau eu tymor er mwyn osgoi unrhyw oedi.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, eglurodd y Swyddog pe bai maes gwersylla sy'n gweithredu o dan y rheol 28 diwrnod yn gweithredu heb hysbysiad ymlaen llaw, y byddai hynny yn cael ei ystyried yn fater o dorri rheolau cynllunio. Yn ogystal, cadarnhaodd y Swyddog pe bai gweithredwr maes gwersylla yn cyflwyno hysbysiad ymlaen llaw ac yn gweithredu am fwy na 28 diwrnod, y byddai hynny hefyd yn cael ei ystyried yn dorri rheolau cynllunio.

Holodd Aelod am yr amserlen i brosesu cais am hysbysiad ymlaen llaw, ac mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog bod gan yr Awdurdod 28 diwrnod i ystyried y cais gyda'r potensial o gymeradwyaeth ymlaen llaw o hyd at 3 mis.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y newidiadau yn y ddeddfwriaeth i 60 diwrnod mewn rhai ardaloedd oherwydd yr effaith bosibl ar y dirwedd ac ar fioamrywiaeth, fodd bynnag, cytunwyd bod argymhelliad y Swyddogion yn fodd pragmataidd o ymdrin â hyn.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd**:

a) nodi diwygiadau Llywodraeth Cymru i'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd gwersylla hamdden dros dro, gan gynnwys cadw'r terfyn o 28 diwrnod o fewn y Parciau Cenedlaethol, a chyflwyno gofynion i hysbysu ymlaen llaw.

b) bod yr Awdurdod yn cytuno na fyddai'n ailgyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar unwaith o ran gwersylla ond y byddai'n monitro'r gweithredu ac effeithiau'r hawliau datblygu a ganiateir diwygiedig am flwyddyn cyn penderfynu a fyddai cyfiawnhad dros gyflwyno camau pellach.

**9. Adroddiad Blynyddol ar Fonitro'r Fframwaith Partneriaeth**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Adroddiad Blynyddol ar Fonitro'r Fframwaith Partneriaeth am y flwyddyn 2025/26 oedd yn rhoi trosolwg o'r partneriaethau strategol allweddol yr oedd yr Awdurdod yn cydweithio â hwy i ategu ei flaenoriaethau strategol ehangach. Dywedwyd nad oedd yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu holl waith yr Awdurdod o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth ond ei fod yn canolbwyntio ar bartneriaethau arwyddocaol yr Awdurdod oedd wedi cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol.

Nodwyd bod y bartneriaeth â Chyngor Sir Penfro ar benodi Ecolegydd Cynllunio ar y cyd â sgôr RAG Ambr o ganlyniad i'r Tîm Rheoli Datblygu godi pryderon ynghylch gwydnwch a digonolrwydd yr adnodd a rennir, a gofynnodd Aelod ym mha fodd mae mynd i'r afael â'r mater hwn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu bod y 18 mis diwethaf wedi bod yn heriol o ganlyniad i'r llwyth gwaith cynyddol a'r newidiadau yn staff y tîm, a bod y sylwadau a nodir yn yr adroddiad yn amlygu'r sefyllfa fel yr oedd 4 mis ynghynt. Fodd bynnag, ers hynny, roedd y tîm wedi dal i fyny â'r ceisiadau, ac roedd y sefyllfa wedi gwella. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro am y 6 mis nesaf i sicrhau bod yr adnoddau yn parhau i fod yn ddigonol i reoli nifer y ceisiadau a dderbynnir.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am gymorth yr Awdurdod i Eisteddfod y Garreg Las, a gofynnodd Aelod beth fydd gwaddol yr eisteddfod. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Gweinidog Diwylliant ynghylch gwaddol yr ŵyl ynghyd â chyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Cytunwyd y byddai gwaddol yr Eisteddfod yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan yr Awdurdod a sefydliadau eraill oedd yn gweithio'n ddiwyd i ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cyfrannu at y cynllun Parcio a Theithio yn Ninbych-y-pysgod, a gofynnodd Aelod a oedd cais wedi'i wneud i Bourne Leisure am gyfraniad. Cytunodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu i gyfeirio'r sylw hwn ymlaen i Gyngor Sir Penfro oedd yn rheoli'r gwasanaeth.

Roedd yr Aelodau wedi canmol Swyddogion yr Awdurdod am eu gwaith partneriaeth, a chytunwyd bod y dull hwn yn allweddol er mwyn bod yn strategol ac yn ymarferol wrth fynd i'r afael â'r heriau a rennir.

**Nodwyd.**

**10. Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn gofyn am awdurdodi presenoldeb yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Gwahoddwyd yr Aelodau i gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd pe baent yn dymuno mynychu'r gynhadledd ar ran yr Awdurdod.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** awdurdodi un Aelod (i'w benderfynu) i fynychu Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gynhelir ar 16/17 Medi 2026 yn Neuadd Brangwyn yn Abertawe.